

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Ionawr, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
 Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
 Y Cyngorwyr Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
 Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)
 Ymddiheuriad: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Ifor Owen

72. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cyngorydd Michael Strain am hwyluso'r trefniant o gael cyfarfod dros 'zoom.'

73. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

74. **CADARNHAU COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 14eg Rhagfyr, 2020. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones.

MATERION YN CODI –

(1) Eitem 63 – Materion Iechyd (tudalen 2)

Yn unol â phenderfyniad y cyfarfod olaf, trafodwyd y posibilrwydd o wahodd Dr. O.G. Morris i ymuno a'r aelodau yng nghyfarfod mis Chwefror er rhoddi cyfle iddo roi diweddarad ynglyn a'r hysbyseb ymddangosodd ym mis Rhagfyr am feddyg ychwanegol i'r Feddygfa.

Penderfynwyd gwahodd Dr. O.G. Morris i ymuno yn y cyfarfod mis Chwefror os yw hynny'n bosibl.

(2) Eitem 66 – Tendrau Barbio (tudalen 2)

Adroddodd y Clarc fod hysbyseb wedi ei anfon i Llanw Llyn ar gyfer mis Ionawr ac iddi dderbyn galwad gan Mrs. Meinir Jones, trefnydd hysbysebion y Llanw, yn gofyn a oedd y Cyngor yn dymuno ei roi am ddau fis gan fod y dyddiad cau ar 26ain Chwefror, 2021.

Penderfynwyd fod yr hysbyseb i ymddangos yn Llanw Llyn ym mis Ionawr a Chwefror.

75. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y cais a ganlyn:

Cais C20/1037/32/DT – estyniadau ac addasiadau i Pentre, Botwnnog.

Penderfynwyd yn unfrydol gefnogi'r cais.

76. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd anfon y mater a ganlyn ymlaen i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd - tyllau dwfn yn y ffordd o Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes – angen sylw brys.

Yn y cyswilt hwn codwyd y ddau fater a ganlyn gan Y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir:

(a) Y ffordd heibio Eglwys Santes Mair, Bryncroes am Bengopa – cwynion fod baw ci ar y ffordd ac yn ei gwneud yn amhosibl i'w cherdded.

Addawodd Y Cyngorydd Gareth Williams y byddai'n cael gair a'r Swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd.

(b) Fod cwynion wedi dod i law fod y ffordd o Dai Cyngor Bryn Mair, Bryncroes, yn berygl pan mae wedi rhewi.

Addawodd Y Cyngorydd Gareth Williams y byddai'n cael gair a Chwmni 'Adre.'

77. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

78. **ADRODDIAD YR IS-BWYLLGOR ARIANNOL A GYNHALIWDYD YN GYNHARACH AR Y NOSON**

Cyfarfu'r Is-bwyllgor Ariannol yn gynharach ar y noson, (Y Cyngorwyr Glyn Roberts a Glenys Williams yn absenoldeb Y Cyngorwyr David Brunelli ag Ifor Owen).

Archwiliwyd y fantolen ariannol hyd at 5ed Ionawr, 2021, a oedd yn dangos £6,473.20 yn y cyfrif cyfredol a £1,693.14 yng nghyfrif y fynwent. Ystyriwyd y taliadau a oedd/neu yn debygol o fod yn ddyledus cyn diwedd Mawrth, 2021, a phenderfynwyd argymhell i'r Cyngor fel a ganlyn:

1. Fod £1,000 yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa gyfredol i gronfa'r fynwent (nodyn mae hyn wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf).
2. Fod y ceisiadau ariannol oedd i law, sef Cerebal Palsy Cymru (Canolfan Therapi Plant Bobath gynt), Elusen Ambiwylans Awyr Cymru ag Eglwys Sant Beuno, Botwnnog (i gynnal a chadw'r fynwent) yn derbyn cyfraniad.
3. Peidio cyfrannu at Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021 a oedd i'w chynnal ym Moduan ond wedi ei gohirio i 2022, oherwydd yr ansicrwydd a fyddai modd cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol eleni eto yn wyneb COFID19. (Nodyn – 'roedd y Cyngor wedi ymwyo i gyfrannu £1,000 yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/1 hyn yn ychwanegol at y cyfraniad o £1,000 wnaed ym mis Chwefror, 2020 am y flwyddyn ariannol 2019/20).
4. Ystyriwyd y praesept ac yn wyneb fod y praesept wedi codi llynedd i "£6,500 ar sail fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal" gan y "byddai hynny'n chwyddo economi'r ardal," argymhellwyd fod y Cyngor yn glynu at yr un swm o braesept sef £6,500.

Diolchwyd i'r Is-bwyllgor am eu sylwadau a'u hargymhellion a **phenderfynwyd:**

a) Fod £1,000 (siec 200718) i'w drosglwyddo o'r gronfa gyfredol i gronfa'r fynwent.

b) Cyfrannu fel a ganlyn:

Cerebal Palsy Cymru £ 50 (siec 200715)

Eglwys Sant Beuno, Botwnnog
at gynnal a chadw'r fynwent £125 (siec 200716)

Elusen Ambiwylans Awyr Cymru £200 (siec 200717)

(Nodwyd – na ddaeth ymateb gan Brifathro Ysgol Uwchradd Botwnnog ynglyn a chael cyfrifiaduron).

- c) Peidio cyfrannu'r £1,000 addawyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 i'r Eisteddfod Genedlaethol oedd i'w chynnal ym Moduan yn ystod mis Awst 2021 a hynny oherwydd yr ansicrwydd ynglyn a chynnal gweithgareddau yn wyneb COFIDI9.
- d) Glynu at yr un swm ar gyfer praesept 2021/22 sef £6,500.

79. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Archwilio Cymru £305.20 (siec 200719)

Llanw Llyn pan ddaw i law (siec 200720)

Penderfynwyd hefyd rhoi hawl i'r Clarc gael Y Cynghorwyr Ifor Owen a Glenys Williams i arwyddo sieciau 200715 – 200726, hyn yn wyneb y gwaharddiadau sydd mewn grym gyda CHOFID 19.

80. **ADRODDIAD Y BDO AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 3 Iain MAWRTH, 2020**

Cyflwynwyd adroddiad y BDO ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 3 Iain Mawrth, 2020 – cylchredwyd copi i bob aelod ynghyd ag adroddiad ar y materion yn codi. Nodwyd mai un mater a godwyd sef yn Adran 1 – Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth “Adran 1 - Nodyn Datgelu Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Beth yw'r mater?

Nid yw'r cyngor wedi ateb blwch 14 ar gyfer 2019 mewn camsyniad yn Adran 1 y ffurflen flynyddol.

Credwn, ar sail gwybodaeth y flwyddyn flaenorol, y dylai'r cyngor fod wedi ateb 'Amh'.

Beth yw'n hargymhelliad i chi?

Dylai'r cyngor sicrhau ei fod, yn y blynyddoedd i ddod, yn ateb 'Na' neu 'Amh', i ddangos nad yw'r cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ac nad yw'n gyfrifol am reoli cronfeydd ymddiriedolaeth neu asedau.

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.

Dros ac ar ran

BDO LLP

Dyddiad: 16 Rhagfyr, 2020.”

Ymddiheurodd y Clarc mai ei chamgymeriad hi oedd peidio rhoi tic yn y blwch priodol ar y ffurflen flynyddol er fod hyn wedi digwydd ar y ffurflen flynyddol y flwyddyn yn diweddu 3 Iain Mawrth, 2019.

Penderfynwyd cymeradwyo y datganiad cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac awdurdodi'r Gadeiryddes i arwyddo'r gymeradwyaeth ar ran y Cyngor.

Penderfynwyd ymhellach i nodi sylwad ynglyn a 'datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth' ac i sicrhau fod hyn yn digwydd yn y dyfodol.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Sion Williams ac eiliwyd gan Dylan Parry Jones gyda phleidlais unfrydol yn dilyn).

Diolchwyd i'r Clarc am ei gwaith yn paratoi'r cyfrifon.

81. **AWYR DYWYLL Y NOS YN LLŶN**

Rhanwyd gwybodaeth am gyfarfod arlein ar 27ain Ionawr, 2021, am 5.00 y.h. – y manylion wedi ei gylchredeg gyda'r rhaglen.

82. **DIWNOD GWEITHWYR Y GIG, GOFAL CYMDEITHASOL A RHENG FLAEN – 5ed GORFFENNAF, 2021**

Cyflwynwyd e-bost dderbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru ynglyn a'r uchod – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd fod y cyfryw i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.